
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwerthuso Amrywiaeth mewn Democratiaeth

## CRYNODEB GWEITHREDOL



# Beth yw Amrywiaeth mewn Democratiaeth?




**Rhaglen a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru oedd Amrywiaeth mewn Democratiaeth (AmD). Fe'i cynhaliwyd o Orffennaf 2014 tan fis Mawrth 2017.**

Nod y rhaglen oedd **cynyddu amrywiaeth** yn llywodraeth leol Cymru. Roedd pum maes i'r rhaglen:

- **Menter Fentora**
- **Ymgyrch Cyfathrebu**
- **Menter Ymgysylltu â Chyflogwyr**
- **Y Drws i Ddemocratiaeth**
- **Ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol**

Mae'r rhaglen wedi cael ei gwerthuso. Mae hyn yn dangos beth weithiodd yn dda a beth y gellir ei wella.



# Menter Fentora



## Pam?

Mentora er mwyn annog pobl i sefyll mewn etholiad llywodraeth leol.

## Sut?

Cafodd aelodau o’r cyhoedd (cyfranogwyr) eu paru gyda chynghorwyr (mentoriaid). Cyflawnodd y cyfranogwyr amrywiaeth o weithgareddau. Ymysg rhain roedd:

- mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau’r cyngor
- hyfforddiant ynghylch llywodraeth leol a rôl cynghorydd
- arweiniad a chefnogaeth gyson gan eu mentor.

## Canlyniadau

### Cyfranogwyr

Bu 51 cyfranogwr a 64 mentor yn cymryd rhan. Roedden nhw’n dod o ystod o gefndiroedd amrywiol. Cynhaliwyd mentora AmD yn 20 o 22 awdurdod lleol Cymru.

Ar ddiwedd yr AmD, dywedodd 20 cyfranogwr y bydden nhw’n ystyried sefyll mewn etholiad llywodraeth leol. Safodd rhai o’r rhain, a chafodd rhai ohonyn nhw eu hethol.

Dywedodd cyfranogwyr fod eu gwybodaeth am lywodraeth leol wedi gwella, a’u hymwybyddiaeth ohoni. Dywedodd eraill eu bod nhw wedi dod yn fwy gweithgar mewn meysydd eraill o fywyd cyhoeddus. Roedd hyn yn cynnwys dod yn llywodraethwr ysgol.

# Menter Fentora

Mae rhai rhwystrau na ellir mynd i'r afael â nhw drwy fentora. Ymysg rhain mae trefnu gofal plant a bod ar incwm isel. Mae cyfraith newydd yn mynd i'r afael â'r rhain.

## Mentoriaid

Daeth rhai mentoriaid yn fwy ymwybodol o'r rhwystrau a wynebir gan bobl o gefndiroedd amrywiol. Dywedodd nifer y byddai diddordeb ganddyn nhw mewn bod yn fentor eto.

## Y dyfodol

Mae angen cyfnod datblygu. Byddai hwn yn cynllunio gweithgareddau ac adnoddau pwysig y rhaglen. Byddai hefyd yn sefydlu'r prosesau monitro a gwerthuso ar ddechrau'r rhaglen.

Dylai unrhyw raglen yn y dyfodol fod yn fwy eglur ynghylch pa rwystrau y gall fynd i'r afael â nhw. Dylid teilwra cymorth i anghenion pob cyfranogwr.





# Ymgyrch Cyfathrebu

## Pam?

Bwriad yr ymgyrch cyfathrebu oedd:

- hyrwyddo AmD i gyfranogwyr posibl
- gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o lywodraeth leol
- gwella'r cysylltiad rhwng llywodraeth leol a chymunedau.

## Sut?

Defnyddiodd AmD:

- Wefan a chyfryngau cymdeithasol
- Cylchgronau
- Radio
- Taflenni
- Digwyddiadau.

Gofynnodd AmD i sefydliadau eraill hyrwyddo'r rhaglen hefyd. Ymysg rhain roedd Un Llais Cymru a Chwarae Teg.

# Ymgyrch Cyfathrebu

## Canlyniadau

Defnyddiodd yr ymgyrch nifer o wahanol ffyrdd o gyfathrebu gyda'r cyhoedd. Roedd angen ymgyrch fwy yn y cyfryngau i wella ymwybyddiaeth o lywodraeth leol.




## Y dyfodol

Mae angen ymgyrch hyrwyddo er mwyn mynd i'r afael â safbwyntiau negyddol ynghylch llywodraeth leol. Mae hyn yn cynnwys tâl, cyfrifoldebau ac ymrwymiad amser cynghorwyr.





# Menter Ymgysylltu â Chyflogwyr



## Pam?

Nod y maes hwn oedd i gyflogwyr annog eu gweithwyr i sefyll mewn etholiad llywodraeth leol.

## Sut?

Derbyniodd cyflogwyr ddeunydd cyfathrebu a gwahoddiadau i ddigwyddiadau.

## Canlyniad

Ni chyflawnwyd rhan hon y rhaglen yn llawn.

Dywedodd cyfranogwyr a mentoriaid y gallai gweithio a bod yn gynghorydd yr un pryd fod yn anodd. Dywedodd rhai fod gan gyflogwyr safbwyntiau negyddol ynghylch cynghorwyr a'u bod yn annhebygol o roi gwaith iddyn nhw.

## Y dyfodol

Dylid gweithio gyda chyflogwyr i egluro'r sgiliau y gall gweithwyr eu hennill drwy fod yn gynghorwyr.

# Y Drws i Ddemocratiaeth

## Pam?

Nod hyn oedd mynd i'r afael â'r rhwystrau ariannol a wynebir gan bobl anabl sy'n sefyll mewn etholiad.

## Sut?

Byddai ymgeiswyr anabl yn cael cymorth ariannol. Mae hyn oherwydd eu bod nhw'n wynebu costau ychwanegol yn ystod etholiad. Gellid ei ddefnyddio i wella hygyrchedd, fel talu am ddehonglydd.

## Canlyniadau

Ni chyflawnwyd rhan hon y rhaglen yn llawn, oherwydd bod rheoliadau'n atal Llywodraeth Cymru rhag ariannu ymgeiswyr yn uniongyrchol.

Rhoddwyd peth cyllid a chymorth i gyfranogwyr anabl er mwyn eu helpu i:

- fynychu cyfarfodydd gyda mentoriaid
- mynychu digwyddiadau a hyfforddiant
- teithio

## Y dyfodol

Mae angen cynllun sy'n helpu ymgeiswyr a chynghorwyr anabl oherwydd y rhwystrau ychwanegol maen nhw'n eu hwynebu.





# Ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol

## Pam?

Pleidiau gwleidyddol sy’n aml yn gyfrifol am ddewis ymgeiswyr ar gyfer etholiad. Gwnaeth AmD eu hannog nhw i gynyddu amrywiaeth ymysg ymgeiswyr ac aelodau o bleidiau.

## Sut?

Cyfarfu aelodau o’r tîm prosiect â chynrychiolwyr o bleidiau gwleidyddol. Trafodwyd ffyrdd o wella amrywiaeth. Derbyniodd y pleidiau gwleidyddol y newyddion diweddaraf am y rhaglen.

## Canlyniadau

Cytunodd y pleidiau gwleidyddol fod angen gwella’r amrywiaeth o gynrychiolwyr etholedig.


Mae pob plaid wleidyddol yn cymryd camau er mwyn gwella amrywiaeth eu hymgeiswyr.

## Y dyfodol

Mae angen pobl ddylanwadol o bleidiau gwleidyddol i ymgysylltu â’r rhaglen.

Mae angen ymrwymiad gan bob plaid.

Mae angen mynd i’r afael â rhagfarn ddiarwybod ar baneli dethol.


1
2
3

# CYSWLLT


**Merisha Hunt**
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

03000 628345
Merisha.Hunt003@gov.wales